# A Highway Code for Mobility Scooter Users



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Produced with support from
The Welsh Assembly Government

Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

Crystal Mark
Clarity approved by
Plain English Campaign

# Introduction

**A mobility scooter could cause considerable damage to the user or to other people if it collided with someone or something.**

We have written this highway code to protect the safety of people who use electric mobility scooters and the safety of other road users and pedestrians. If you ride a scooter, you must follow this highway code whether you ride on the pavement, footpath or on the road.

You are responsible for your own, and other people's, safety.



If you are using a powered vehicle for the first time, or if it a while since you have driven on the road, you are strongly advised to seek training. For details of courses, contact your local **Disabled Living Centre**, **Mobility Centre** or your **Local Authority Road Safety Uni**t.



# Definitions

Three types of 'invalid carriage' are defined in **'The Use of Invalid Carriages on Highways Regulations 1988'**.

**Class 1 – manual wheelchairs.**
These wheelchairs are not electrically powered. You use your arms to move the wheelchair forward, or you are pushed by another person.

**Class 2 – powered wheelchairs and scooters.**
These are only suitable for riding on pavements or footpaths, and have a top speed of 4 miles an hour (6 kilometres an hour).



**Class 3 – powered wheelchairs and other outdoor powered vehicles, including scooters.**

These are suitable for riding on roads, and have a top speed of 8 miles an hour (12 kilometres an hour and have an unladen weight that must not exceed 150 kilograms. These also have a switch to limit the top speed to 4 miles an hour (6 kilometres an hour) on pavements or footpaths.

A Class 3 vehicle is not legally defined as a motor vehicle and the user does not have to have a driving licence or take a driving test.

However, a Class 3 vehicle can only be used by a disabled person aged 14 or over, or by an able-bodied person who is demonstrating a vehicle before selling it, training a disabled user, or taking a vehicle to or from a place for maintenance or repair.



# Registration

**Class 1** and **Class 2** invalid carriages are not required to be registered.

A **Class 3** vehicle is required to be registered for road use with the Driver and Vehicle Licensing Agency (DVLA). It must be licensed in the disabled taxation class and display a nil duty tax disc. There is no fee to pay and the vehicle is not required to display registration plates. However, you are required to renew your tax disc annually.

To register and license a Class 3 vehicle you should complete form **V55/4** (for new vehicles) or **V55/5** (for used vehicles) and take or send it to your nearest DVLA local office, not to DVLA Headquarters in Swansea.


Guidance on completing the forms is given in leaflets **INF210** and **INF211** respectively. The address of your local office can be found at **www.direct.gov/motoring**; in the **V100** information leaflet available from post offices that issue tax discs; or by telephoning **0870 243 0444**.



# Important basic advice

**1** Make sure that you get a scooter that is appropriate for your needs. Get professional advice before buying a mobility scooter. This could mean getting an assessment and advice from your local occupational therapist or a reputable dealer.





**2** Make sure that you know what all the switches and levers on your scooter do, and that you can control it properly before you go out on it.

**3** Make sure that the scooter is properly maintained. Have it thoroughly checked (the manufacturer's handbook will tell you how often to do this).

4 Keep the battery fully charged and get to know how far your scooter can go before it will need recharging. Remember that the distance you can travel will depend on the condition of the battery, the weight you have on the scooter and the kind of route you follow. Cold weather, travelling on rough surfaces and travelling up hills will use more power and reduce the distance you can travel.

## Insurance

5 Although you do not have to be insured by law, we strongly recommend that you have at least third-party cover. It is also a good idea to be covered for fire, theft, and damage.

## Plan your journey

6 The most direct or the shortest route will not always be the best route to take. Steep hills, high kerbs or other obstructions may make it impossible to tackle certain routes.




**7** You may take a Class 1 wheelchair on some buses and trains but always check that this service is available for both your outward and return journeys before you set off.

# Out and about

**8** Do not use your scooter if you have been drinking alcohol or taking drugs. Check the patient information on any medication your doctor prescribes or which you buy over the counter. If the information says the medication could cause drowsiness, don't use the scooter.

**9** See and be seen! If you are using anything to protect you from the weather, make sure that it does not restrict your vision. Wear fluorescent materials or have fluorescent markings on your scooter and put on your lights to help other road users see you.



**10** Do not wear loose-fitting clothes. Make sure any belts or scarves are tucked away so they can't catch in one of the wheels.



**11** Do not carry another person (child or adult) with you on the scooter.



**12** Do not carry or lead a pet while you are on your scooter. Even trained and well-behaved animals can be unpredictable and cause crashes.

**13** Don't overload your scooter with shopping or other goods as this could make the vehicle unstable. Do not have anything hanging from the handlebars as this will make it more difficult to control the scooter.

# On the move

**14** Be careful when going up and down kerbs. Always approach at right angles and do not go up or down kerbs higher than recommended for the type and size of your wheels (look in the manufacturer's handbook for guidance). Wherever possible, cross roads where there is a dropped kerb.

**15** Take extra care when you cannot see clearly ahead, for example, when you are approaching a corner where there is a wall or hedge restricting your view.

**16** Take great care when going round corners. Your scooter could topple over if you go round a corner too quickly, especially if the ground is sloping.



**17** Be very careful when you are approaching corners or junctions on loose gravel, on a slippery surface or downhill.

18 Slow down in plenty of time. There may be a delay in braking on some scooters.

19 Always be aware of pedestrians and road users. Pedestrians may not see or hear you approaching them, especially from behind. Look carefully before you move off or change direction.

## On the pavement

20 Some scooters are designed only to be driven safely on pavements or footpaths, except when you are crossing roads.


21 If you are riding a Class 3 vehicle, you must switch over to the 4 miles an hour (6 kilometres an hour) setting when you are using it on a pavement or footpath.


22 **Pedestrians have right of way!**
If you are riding your scooter on a pavement or footpath, give way to pedestrians. The top speed allowed on pavements or footpaths is 4 miles an hour, but even this is too fast where there are pedestrians about.

23 In a crowded area, such as a shopping precinct or shop, you must make sure that you do not run into anyone or cause any damage with your scooter.

# On the road

**24** To drive on the road you need a vehicle that can travel at up to 8 miles an hour (12 kilometres an hour). It must also have headlights, rear lights, flashing indicators and a horn.





**25** Remember that you are not driving a car but a very small and slow vehicle, which is very vulnerable. It is wise to avoid using busy roads.

**26** When on the road, you must follow the same rules as other traffic.

**27** You must keep to the left.

**28** You must obey traffic lights and all other road signals and instructions, including stop signs, give-way signs and signs for one-way streets.

**29** You must give way to pedestrians on crossings.

**30** At night, you must have your headlights and rear lights on.


**31** Although it is not recommended, you can use dual carriageways if you have an extra flashing amber warning light.

**32** You must not use your scooter on motorways.

**33** You are not allowed to use bus lanes or cycle tracks.

**34** Always indicate before pulling out or turning left or right.

**35** When you are passing parked cars, look out for doors opening.



**36** Remember that other vehicles are almost certainly moving much faster than you are and may reach you before you expect them to. Be sure that you have plenty of time to carry out your actions.

**37** Don't rely on your mirror. It may give a false impression of distance.

**38** To turn right, it may be safer to turn on to the pavement and use a pedestrian crossing to cross the road. If there is no pavement, it may be safer to stop on the left and wait for a safe gap in the traffic.

**39** Use your hazard lights if you cannot move for any reason, or if you are in a difficult or dangerous situation. Do not drive with them on unnecessarily.

**40** Do not park your scooter where it would cause an obstruction and make it difficult for others to use the pavement or footpath.

For more information about buying and using mobility scooters, please contact
**The National Federation of Shopmobility, The Hawkins Suite, Enham Place, Enham Alamein, Andover, Hants, SP11 6JS.**
**Phone: 08456 442 446**

Designed and produced by Escape • 029 2064 5210.

# Rheolau'r Ffordd Fawr

## i Bawb Sy'n Defnyddio Sgwter Trydan



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynhyrchwyd gyda chefnogaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

# Cyflwyniad

**Gall sgwter trydan fod yn beth digon peryglus. Peth hawdd iawn ydi brifo eich hun neu rywun arall yn ddifrifol os ydi eich sgwter yn taro rhywbeth, neu rywun.**

Diben y llyfryn yma ydi gwneud pob siwrne sgwter yn siwrne ddiogel – diogel i ddefnyddiwr y sgwter, diogel i gerddwyr, a diogel i ddefnyddwyr ceir a cherbydau eraill. Mae'n rhaid i bawb sy'n defnyddio sgwter ddilyn y rheolau sy'n y llyfryn yma, p'un ai ydi o'n gyrru ar balmant, ar lwybr troed neu ar y ffordd fawr ei hun.

Y chi fel defnyddiwr y sgwter sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch y bobl sydd o'ch cwmpas.



Os nad ydych chi wedi gyrru cerbyd modur o'r blaen (er enghraifft, car neu feic modur), neu heb yrru ers talwm, mae mynd ar gwrs i ddysgu gyrru sgwter trydan yn beth doeth iawn i'w wneud. I wybod mwy am y cyrsiau sydd ar gael cysylltwch â'r **Ganolfan Bywyd Anabl** (Disabled Living Centre), **Canolfan Symudedd** (Mobility Centre) neu **Uned Ddiogelwch Ffordd eich Awdurdod Lleol**.



# Diffiniadau

Mae tri dosbarth o 'gerbyd pobl anabl' ac mae'r gyfraith, yn **'Rheoliadau Priffyrdd, Y Defnydd o Gerbydau i'r Anabl 1988'** yn eu diffinio nhw fel hyn:

**Dosbarth 1 – cadeiriau olwyn llaw.**
Mae'r rhain yn cael eu gyrru gan ddwylo'r person sy'n eistedd yn y gadair, neu gan rywun arall yn eu gwthio o'r tu cefn – ond nid gan drydan.

**Dosbarth 2 – cadeiriau olwyn neu sgwteri sy'n cael eu gyrru gan fodur trydan.**
Mae'r rhain yn mynd ar gyflymder o hyd at 4 milltir yr awr (6 cilomedr yr awr) a ddim, yn yr awyr agored, yn addas i'w defnyddio ond ar balmant neu lwybr troed.



**Dosbarth 3 – cadeiriau olwyn neu gerbydau eraill i'w defnyddio yn yr awyr agored sy'n cael eu gyrru gan fodur, yn cynnwys sgwteri trydan.**

Mae'r rhain yn addas i'w defnyddio ar ffyrdd, yn mynd ar gyflymder o hyd at 8 milltir yr awr (12 cilomedr yr awr) ac yn ddim trymach yn wag na 150 kilogram. Mae yna hefyd swîts arbennig arnyn nhw sy'n cyfyngu'r cyflymder uchaf i 4 milltir yr awr (6 cilomedr yr awr) er mwyn iddyn nhw gael mynd ar balmentydd a llwybrau troed.

Yn ôl y gyfraith, dydi cerbyd Dosbarth 3 ddim yn gerbyd modur ac felly does dim rhaid cael trwydded na chymryd prawf cyn cael gyrru un.

Fodd bynnag, i ddefnyddio cerbyd Dosbarth 3 mae'n rhaid i chi fod naill ai'n berson anabl dros 14 oed neu'n berson abl sy'n dangos sut mae defnyddio'r cerbyd cyn ei werthu, yn hyfforddi person anabl, neu'n ei yrru i (neu o) weithdy trwsio.



# Cofrestru

Does dim angen cofrestru cerbydau pobl anabl **Dosbarth 1** a **2**.

Mae'n rhaid cofrestru cerbyd **Dosbarth 3** gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (y DVLA) cyn ei yrru o ar ffordd fawr. Mae angen ei drwyddedu o fel cerbyd dosbarth toll yr anabl ('disabled taxation class') ac arddangos disg di-doll arno. Does dim angen talu unrhyw ffi a does dim angen dangos platiau rhif gofrestru arno. Mae gofyn, serch hynny, i chi adnewyddu eich disg bob blwyddyn.

I gofrestru a thrwyddedu cerbyd Dosbarth 3 mae'n rhaid cwblhau ffurflen **V55/4W** ar gyfer cerbydau newydd, neu **V55/5W** ar gyfer cerbydau ail-law ac yna'i gymryd neu ei anfon o i'ch swyddfa drwyddedu leol – ac nid i'r pencadlys yn Abertawe.

Mae yna gyngor ar sut i gwblhau'r ffurflenni yn nhaflenni **INF210W** (ar gyfer ffurflen V55/4W) ac **INF211W** (ar gyfer ffurflen V55/5W). Mae cyfeiriad eich swyddfa drwyddedu leol i'w gael ar **www.direct.gov/motoring**, yn y daflen **V100W** sydd i'w chael mewn swyddfeydd post sy'n gwerthu trwyddedau, neu drwy ffonio **0870 243 0444**.



# Cyngor pwysig

**1** Gofalwch eich bod yn cael sgwter sy'n ateb eich dibenion. Cyn i chi ei brynu o, gofalwch eich bod yn cael cyngor proffesiynol. Fe all hyn olygu cael asesiad o'ch anghenion a chyngor gan eich therapydd galwedigaethol lleol neu gan gwmni gwerthu sgwteri sydd ag enw da iddo.





**2** Gofalwch eich bod yn gwybod beth mae pob un switsh, braich a handlen ar eich sgwter yn ei wneud, a'ch bod yn gallu ei reoli o'n iawn cyn i chi ei ddefnyddio fo i fynd am dro.

**3** Gofalwch fod y sgwter yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn a'ch bod yn ei archwilio'n gyson ac yn drylwyr (bydd llawlyfr y gwneuthurwr yn nodi pa mor aml y bydd angen gwneud hyn).

4 Gofalwch fod y batri wedi ei wefrio (ei siarsio) yn llawn bob amser a'ch bod yn gwybod pa mor bell y gallwch chi fynd cyn bod angen ei ail-wefrio. Mae cyflwr y batri, y pwysau mae'n rhaid i'r sgwter ei gario a'r math o lwybr fyddwch yn ei gymryd i gyd yn dylanwadu ar ba mor bell y gallwch chi fynd. Cofiwch hefyd fod tywydd oer, gyrru ar lwybrau garw a dringo elltydd yn defnyddio mwy o bŵer nag arfer.

## Yswiriant

5 Er nad ydi'r gyfraith yn eich gorfodi chi i gael yswiriant, rydym yn argymell yn gryf i chi gael o leiaf yswiriant trydydd person (third party). Mae yswiriant rhag tân, lladrad neu ddifrod yn syniad da hefyd.

## Cynllunio eich siwrnai

6 Nid y ffordd fyrraf ydi'r ffordd orau i fynd bob amser. Mae angen meddwl am y rhwystrau, yr elltydd serth, y palmentydd uchel ac ati cyn cychwyn ar eich ffordd.




7 Mae posib cymryd cadair olwyn Dosbarth 1 ar rai bysus a threnau, ond gwnewch yn siŵr cyn cychwyn fod hyn ar gael ar gyfer y siwrnai allan a'r siwrnai yn ôl.

# Mynd am dro

8 Peidiwch â mynd ar eich sgwter ar ôl yfed alcohol neu gymryd cyffuriau. Os ydych yn cymryd meddyginiaeth, edrychwch yn ofalus ar y wybodaeth i gleifion sy'n dod gyda'r feddyginiaeth honno, p'un ai ydi o'n bresgripsiwn gan eich meddyg neu'n ffisig dros y cownter. Os ydi o'n gallu eich gwneud chi'n gysglyd, peidiwch â defnyddio'ch sgwter.

9 Gofalwch eich bod yn gweld a bod pawb yn eich gweld chi! Pan fyddwch chi'n defnyddio rhywbeth i'ch gwarchod rhag y tywydd, gofalwch nad ydi o'n eich rhwystro rhag gweld yn iawn. Gwisgwch ddillad llachar ('fluorescent') neu rhowch stribedi gloyw ar eich sgwter, a goleuwch oleuadau'r sgwter – bydd hyn yn help mawr i bobl eraill eich gweld.



10 Peidiwch â gwisgo dillad llac. A gwnewch yn siŵr nad ydi'ch belt neu'ch sgarff yn crogi'n agos i'r olwynion.



11 Peidiwch â chario neb arall (plentyn neu oedolyn) ar eich sgwter.



12 Peidiwch â chario na thywys anifail anwes pan fyddwch chi'n gyrru eich sgwter. Mae hyd yn oed anifail ufudd sydd wedi ei hyfforddi'n iawn yn gallu gwneud rhywbeth annisgwyl ac achosi damwain.

13 Peidiwch â gorlwytho'r sgwter, er enghraifft wrth siopa – mae sgwter sydd wedi ei orlwytho'n beryg o droi drosodd. Peidiwch â chrogi unrhyw beth o gyrn llywio'r sgwter oherwydd ei fod yn gwneud y sgwter yn anoddach i'w drin.

# Gair i gall

**14** Cymrwch ofal wrth groesi ymyl y palmant. Gyrrwch ato'n sgwâr ('at right angles') a pheidiwch â chroesi ymyl palmant sy'n rhy uchel i olwynion eich sgwter (bydd yna arweiniad ar hyn yn llawlyfr y gwneuthurwr). Lle bo modd, croeswch y ffordd lle mae ymyl y palmant yn isel.

**15** Byddwch yn fwy gofalus nag arfer pan nad ydi o'n bosib gweld y ffordd o'ch blaen yn glir, er enghraifft, ar gornel lle mae yna wal neu wrych uchel.

**16** Byddwch yn ofalus wrth droi cornel. Fe all eich sgwter droi drosodd os drowch chi'n rhy sydyn, yn arbennig felly os ydi wyneb y llwybr ar ogwydd.



**17** Byddwch yn ofalus iawn os oes gro ar gornel neu gyffordd, neu os ydych yn gyrru ar wyneb llithrig neu lawr allt.

**18** Arafwch mewn digon o bryd. Mae brêc ambell i sgwter yn hir yn gafael.

**19** Cadwch lygad bob amser ar y bobl sydd o'ch cwmpas p'un ai ydyn nhw ar droed neu mewn car. Mae'n bosib iawn, er enghraifft, na fydd cerddwyr yn eich gweld nac yn eich clywed chi, yn arbennig os ydych yn dod o'r tu ôl iddyn nhw. Edrychwch o'ch cwmpas yn ofalus cyn cychwyn neu cyn i chi newid cyfeiriad.

## Wrth yrru ar balmant

**20** Mae yna rai sgwteri gafodd eu cynllunio ar gyfer palmentydd a llwybrau troed yn unig (cerbydau Dosbarth 2, gyda chyflymder uchaf o 4 milltir yr awr). Nid ydynt i'w defnyddio ar y ffordd fawr, heblaw i'w chroesi.

**21** Os ydych chi'n gyrru cerbyd Dosbarth 3 ar balmant neu lwybr troed, mae'n rhaid i chi droi swits cyflymder eich cerbyd i 4 milltir yr awr (6 cilomedr yr awr).


**22** **Ildiwch i gerddwyr!** Os ydych yn gyrru eich sgwter ar balmant neu lwybr troed, mae'n rhaid i chi ildio i gerddwyr – ganddyn nhw y mae'r hawl flaenaf. Y cyflymder uchaf y caiff unrhyw un yrru ar balmant neu lwybr troed ydi 4 milltir yr awr, ac mae hyd yn oed hyn yn rhy gyflym lle mae yna gerddwyr.

**23** Mewn lle prysur fel siop neu ganolfan siopa, mae'n rhaid i chi ofalu nad ydych yn taro rhywun nac yn achosi unrhyw ddifrod gyda'ch sgwter.

# Wrth yrru ar y ffordd fawr

**24** I yrru ar y ffordd fawr, mae'n rhaid i chi gael cerbyd sy'n gallu mynd ar gyflymder o 8 milltir yr awr (12 cilomedr yr awr). Mae'n rhaid bod ganddo hefyd oleuadau blaen, oleuadau cyfeirio ('indicators') sy'n fflachio, a chorn.





**25** Cofiwch nad car yr ydych yn ei yrru ond sgwter – sy'n gerbyd bychan, araf a bregus iawn. Peth doeth fyddai i chi osgoi ffyrdd prysur.

**26** Pan fyddwch chi ar y ffordd fawr, mae'n rhaid i chi ddilyn yr un rheolau â phawb arall sydd ar y ffordd – y ceir, y loris a'r bysus.

**27** Mae'n rhaid i chi gadw i ochr chwith y ffordd.

**28** Mae'n rhaid i chi ufuddhau i oleuadau traffig a phob arwydd a gorchymyn arall sydd ar gyfer defnyddwyr y ffordd fawr, yn cynnwys arwyddion aros, arwyddion ildio ac arwyddion strydoedd unffordd.

**29** Mae'n rhaid i chi ildio i gerddwyr ar groesfan.

**30** Pan mae hi'n nosi, mae'n rhaid i chi oleuo goleuadau blaen ac ôl y sgwter.


**31** Rydym yn argymell i chi beidio â gyrru ar ffordd ddeuol – ond mae gennych hawl i wneud hynny os ydych yn gosod golau rhybudd melyn ychwanegol sy'n fflachio ar eich sgwter.

**32** Chewch chi ddim gyrru eich sgwter ar draffordd.

**33** Chewch chi ddim defnyddio lonydd bysus neu lwybrau beics.

**34** Pan fyddwch am dynnu allan neu droi i'r chwith neu i'r dde, fe ddylech bob amser ddangos hynny drwy ddefnyddio'ch goleuadau cyfeirio ('indicators').

**35** Pan fyddwch yn gyrru heibio i geir sydd wedi'u parcio, gwyliwch rhag i rywun agor drws o'ch blaen.



**36** Cofiwch y bydd cerbydau eraill, yn ddieithriad bron, yn symud llawer yn gyflymach na chi ac yn debyg o'ch cyrraedd yn gynt na'r disgwyl. Gwnewch yn siŵr fod gennych ddigon o amser i wneud yr hyn yr oeddech yn bwriadu ei wneud.

**37** Peidiwch â rhoi gormod o ffydd yn eich drych. Mae o'n gwneud i bethau edrych yn bellach i ffwrdd nag ydyn nhw mewn gwirionedd.

**38** Pan fyddwch am droi i'r dde, fe all fod yn fwy diogel i chi fynd ar y palmant a defnyddio croesfan cerddwyr. Os nad oes yna balmant, fe all fod yn fwy diogel i chi stopio ar y chwith a disgwyl nes bod bwlch yn y traffig.

**39** Os na allwch chi symud am unrhyw reswm, neu os ydych mewn sefyllfa anodd neu beryglus, goleuwch oleuadau rhybudd y sgwter. Ond peidiwch â gyrru gyda goleuadau rhybydd y sgwter ymlaen yn ddiangen.

**40** Peidiwch â pharcio eich sgwter lle fydd o'n rwystr i'r traffig neu'n ei gwneud hi'n anodd i bobl ddefnyddio'r palmant neu lwybr troed.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â phrynu neu ddefnyddio sgwteri trydan, cysylltwch â'r
**National Federation of Shopmobility,**
**The Hawkins Suite, Enham Place,**
**Enham Alamein, Andover,**
**Hants, SP11 6JS.**
**Ffôn: 08456 442 446**